

# CAIS MYNEDIAD PWNC

## Mynediad at Ddata Personol

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch data personol o dan y Ddeddf Diogelu Data (DPA) 2018.

## Beth yw data personol?

Gellir disgrifio data personol fel unrhyw wybodaeth amdanoch chi fel eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn. Gall hefyd fod y pethau fel pa wasanaethau rydyn ni'n eu darparu i chi. Gellir ei ddal mewn gwahanol ffyrdd, naill ai'n electronig neu ar bapur.

## Beth yw cais dilys?

Bydd cais dilys yn cynnwys:

1. Disgrifiad o'r data personol yr ydych am ei dderbyn, gan gynnwys manylion cyfredol ac enwau blaenorol a dyddiad geni ynghyd ag unrhyw wybodaeth i helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth os yw ar gael e.e. blynyddoedd mae'r wybodaeth yn ymwneud a, maes gwasanaeth.
2. Rhaid i chi ddarparu copi o ddeunydd adnabod fel pasbort, trwydded gyrru neu ddau fil cyfleustod sydd o fewn y tri mis diwethaf, a fydd yn ein bodloni o ran eich hunaniaeth.

## Os ydych chi'n gwneud cais ar ran y plentyn

Gallwch wneud cais ar ran plentyn os oes gennych gyfrifoldeb rhiant / warcheidwaeth gyfreithiol.

**Rhaid** darparu prawf o'r cyfrifoldeb rhiant / gwarcheidwaeth gyfreithiol. Daliwch mewn meddwl, os ystyrir bod y plentyn yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau, byddwn yn ymateb i'r plentyn yn hytrach na'r rhiant.

## Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall.

Pan ofynnir am y wybodaeth ar ran eraill e.e. mab neu ferch yn gweithredu ar ran rhiant, mae angen i ni sicrhau bod gennym ganiatâd y person yma i chi gael y wybodaeth ar eu rhan. Mae angen caniatâd ysgrifenedig neu gorchymyn pŵer atwrnai wrth weithredu ar ran eraill. **Rhaid** darparu tystiolaeth cydsyniad neu bŵer atwrnai gyda'r cais.

## Amser i ymateb

Mae'n rhaid i ni ymateb o fewn 1 mis o'r diwrnod ar ôl i ni dderbyn cais dilys. Os yw'n gais cymhleth, er enghraifft, os gofynnwch am 'yr holl wybodaeth y gall y Cyngor ei dal' neu mae yna lawer iawn o wybodaeth, gellir ymestyn y dyddiad cau am hyd at 2 fis yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data. Pe bai hyn yn digwydd byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro a chadarnhau'r dyddiad cau newydd. Efallai y bydd angen i ni ofyn i chi hefyd am ragor o fanylion i'n helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani.

## A fyddaf yn cael popeth y gofynnais amdano?

Mae yna sawl rheswm pam y gellir dileu (golygu) rhywfaint o wybodaeth er enghraifft, gall gyfeirio at rywun heblaw chi eich hun ac nid yn eich gwybodaeth bersonol chi, neu efallai na fydd y deunydd yn ymwneud â'ch cais.

## Sut y darperir y wybodaeth?

Gallwch nodi'r dull sydd orau gennych ar y ffurflen gais.

## A oes tâl?

Fel rheol, darperir y wybodaeth yn rhad ac am ddim ond mewn nifer fach o achosion gall ffi fod yn daladwy. Os yw'r cais yn amlwg yn afresymol neu'n ormodol,

yn enwedig os yw'n ailadroddus, yna yn amlach gellir codi ffi yn seiliedig ar y cost weinyddol o ddarparu'r wybodaeth. Pe bai ffi yn daladwy, byddem yn ysgrifennu atoch gyda'r manylion

Os oes gennych unrhyw ymholiadau gallwch gysylltu â Chlerc y Cyngor, manylion cyswllt fel a ganlyn:

Ffôn 01678 520 632

E-bost: [hafodbryn632@gmail.com](mailto:hafodbryn632@gmail.com)

Swyddfa: Cyngor Cymuned Llany Cil, Hafod y Bryn, Cwmtirmynach, Y Bala, Gwynedd. LL23 7ED

**Llenwch y ffurflen ganlynol a'i hanfon i'r cyfeiriad neu'r e-bost uchod.**

Bydd Cyngor Cymuned Llany Cil yn cadw copi o'ch ffurflen gais am dair blynedd fel cofnod o'ch cais. Bydd y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn cael ei defnyddio ar gyfer pwrpas prosesu eich cais mynediad pwnc yn unig.

**Deddf Diogelu Data 2018**

Mae Cyngor Cymuned Llany Cil yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol. Bydd gwybodaeth bersonol a brosesir gan y Cyngor yn cael ei thrin yn unol â datganiad preifatrwydd y Cyngor, gellir ei weld ar wefan y Cyngor.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut yr ymdrinnir â'ch data, cysylltwch â'r Swyddog Amddiffyn Data ar [hafodbryn632@gmail.com](mailto:hafodbryn632@gmail.com) neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk).

# FFURFLEN CAIS MYNEDIAD PWNC

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais o dan y GDPR am y wybodaeth bersonol sydd gan y cyngor amdanoch chi. Llenwch yr holl feysydd ar y ffurflen hon.

Cofiwch gynnwys prawf adnabod a phrawf preswyllo hefyd fel ein bod yn gallu gwirio pwy ydych chi.

Mae prawf adnabod a dderbynnir yn cynnwys trwydded yrru, pasbort neu gerdyn adnabod y llywodraeth, neu gerdyn adnabod arall; mae prawf preswyllo yn cynnwys datganiad budd-dal neu bensiwn cyfredol, datganiad rhent cyfredol neu gytundeb tenantiaeth, bil cyfleustodau diweddar gyda'ch enw arno (a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf).

Anfonwch *gopiâu* o'ch prawf adnabod a'ch preswyllo gyda'r ffurflen hon - PEIDIWCH ag anfon dogfennau gwreiddiol.

## Amdanoch chi (yr 'ymgeisydd')

<b>Teitl (Mr, Mrs, Miss, Ms, Dr etc.):</b>
<b>Enw Cyntaf:</b>
<b>Cyfenw:</b>
<b>Eich cyfeiriad (bydd yr ohebiaeth a'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad hwn oni bai eich bod yn dewis e-bost isod):</b>
<b>Cod Post:</b>
<b>Rhif Ffôn yn ystod y dydd:</b>
<b>Cyfeiriad E-bost:</b>
<b>Ticiwch y blwch hwn os ydych chi'n hapus i dderbyn gohebiaeth a gwybodaeth trwy e-bost</b> <input type="checkbox"/>

Os ydych yn gwneud y cais hwn ar ran person arall (y 'gwrthrych data'), plis (1) defnyddiwch y blwch nesaf i gyflenwi enw a chyfeiriad y person, a (2) cael y person i lofnodi'r datganiad. Os na fyddwch yn cwblhau'r adran hon, anfonir y wybodaeth i gyfeiriad cartref y person.

Os yw'r person yn blentyn o dan 12 oed, rhwch ei ddyddiad geni.

Os yw'r person yn oedolyn nad oes ganddo'r gallu i awdurdodi trydydd parti i weithredu ar eu rhan, darparwch gopi o'r Gorchymyn Pŵer Atwrnai neu'r Llys Amddiffyn sy'n awdurdodi'r ymgeisydd i weithredu ar ran y pwnc.

<b>Teitl y person (Mr, Mrs, Miss, Ms, Dr etc.):</b>
<b>Enw cyntaf y person:</b>
<b>Cyfenw'r person:</b>

<b>Cyfeiriad y person:</b>
<b>Cod post y person:</b>
<b>Dyddiad geni'r person (os ydi o dan 12 mlwydd oed):</b>
<b>Rwy'n awdurdodi'r unigolyn y rhoddir ei enw fel yr ymgeisydd i dderbyn fy nata personol gan y cyngor</b>
<b>Arwyddwyd (llofnod y person dan sylw):</b>
<b>Dyddiad:</b>

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch i'n helpu i nodi'r data rydych chi ei eisiau

<b>Nodwch pa wybodaeth yr hoffech ei weld.</b>
--

<b>Os ydych chi eisiau gwybodaeth am ddigwyddiad, trafodiad penodol neu o fewn ystod o ddyddiadau, rhowch fanylion.</b>
---

**Dychwelwch y ffurflen hon, eich prawf adnabod a'ch prawf preswyllo, i:**

Cyngor Cymuned Llanycil  
Hafod y Bryn  
Cwmtirmynach  
Y Bala  
Gwynedd  
LL23 7ED

E-bost: [hafodbryn632@gmail.com](mailto:hafodbryn632@gmail.com)

Ffon: 01678520632